

ANCHORA
SPEI
CERETICAE

Cyngor Tref Aberteifi



Rheolau Sefydlog

Diwygiwyd a chymeradwywyd
Mawrth 2019

CYNGOR TREF ABERTEIFI

RHEOLAU SEFYDLOG

1—CYFARFODYDD

- (a) (i) Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn Siambr y Cyngor (Ystafell Gynhadledd 36 Pendre), Aberteifi am 6.00 yr hwyr, oni fydd y Cyngor yn penderfynu'n wahanol mewn cyfarfod blaenorol.
- (ii) Ni chaniateir ysmygu mewn unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor.
- (b) **Y Cyfarfod Blynyddol Statudol**
 - (i) **Mewn blwyddyn etholiad, caiff ei gynnal fel rheol ddim mwy na deg diwrnod ar ôl diwrnod etholiad arferol y Cyngor; ac**
 - (ii) **mewn blwyddyn pan na fydd etholiad, caiff ei gynnal yn ystod yr ail wythnos ym Mai.**

2—CADEIRYDD Y CYFARFOD

Gall y sawl sy'n llywyddu mewn cyfarfod ymarfer holl bwerau a dyletswyddau'r Cadeirydd wrth gynnal y cyfarfod.

Rhaid i Gadeirydd y Cyngor fod yn Gynghorydd a chaiff ei alw'n Faer y Dref, a gelwir yr Is-gadeirydd yn Ddirprwy Faer y Dref.

3—SWYDDOGION PRIODOL

Bydd y Cyngor yn penodi Clerc y Cyngor ac unrhyw swyddogion eraill fel y gwelant yn dda i gyflawni eu swyddogaethau'n briodol.

Lle bydd rheoliad neu orchymyn statudol yn gosod swyddogaethau neu ddyletswyddau ar swyddog priodol y Cyngor yn yr achosion canlynol, Clerc y Cyngor fydd hwnnw/honno:

- (a) Derbyn datganiadau i dderbyn swydd.
- (b) Derbyn a chofnodi hysbysiadau sy'n datgelu diddordebau ariannol.
- (c) Derbyn a chadw cynlluniau a dogfennau.
- (d) Llofnodi hysbysiadau neu ddogfennau eraill ar ran y Cyngor.
- (e) Llofnodi gwysion i fynychu cyfarfodydd y Cyngor.
- (f) Darparu llyfr cofnodion i gofnodi gweithgareddau'r Cyngor.

Mewn unrhyw achos arall, y swyddog priodol fydd y sawl a enwebir gan y Cyngor, ac os na fydd hynny'n bosibl, y Clerc.

4—CWORWM

Bydd **PUM** aelod yn gwneud cworwm. Os na fydd cworwm yn bresennol pan fydd y Cyngor yn cyfarfod, neu os bydd nifer y cynghorwyr sy'n bresennol yn ystod cyfarfod yn gostwng yn is na'r cworwm, caiff y busnes sydd heb ei drafod ei ohirio i'r cyfarfod cyffredinol nesaf, neu i unrhyw ddiwrnod arall a bennir gan y Cadeirydd.

5—PLEIDLEISIO

- (a) Bydd yr aelodau'n pleidleisio drwy godi dwylo, neu os bydd o leiaf ddau aelod yn gofyn am hynny, drwy bleidlais wedi ei llofnodi.
- (b) Os bydd aelod yn gofyn am hynny a chyn y bleidlais, bydd y Clerc yn cofnodi enwau'r aelodau sydd wedi pleidleisio ar unrhyw gwestiwn i ddangos a ydynt wedi pleidleisio o'i blaid neu yn ei erbyn.
- (c)
 - (i) Yn amodol ar (ii) a (iii) isod, gall y Cadeirydd roi pleidlais wreiddiol ar unrhyw fater y bydd pleidlais arno, ac os bydd nifer y pleidleisiau'n gyfartal gall roi pleidlais fwrw hyd yn oed os na fydd y Cadeirydd wedi rhoi pleidlais wreiddiol.
 - (ii) Os byddai'r sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod blynyddol wedi peidio â bod yn aelod o'r Cyngor oni bai am y darpariaethau statudol sy'n diogelu aelodaeth y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd tan ddiwedd cyfnod eu swydd, ni chaiff y person hwnnw fwrw pleidlais wreiddiol wrth ethol Cadeirydd.
 - (iii) Rhaid i'r person llywyddol rhoi'r bleidlais benderfynol pan fydd pleidlais etholiad y gadair yn gyfartal.

6—HYSBYSIADAU AC AGENDA

Tri diwrnod clir cyn cyfarfod, anfonir at bob aelod wŷs yn pennu'r busnes sydd i gael ei drafod ac wedi ei llofnodi gan Glerc y Cyngor, a chaiff gwŷs debyg ei gosod mewn man amlwg yn y dref.

7—TREFN Y BUSNES

- (a) Mewn blwyddyn etholiad dylai cynghorwyr wneud Datganiad Derbyn Swydd ym mhresenoldeb Clerc y Cyngor cyn i'r cyfarfod blynyddol ddechrau.
- (b) **Yn y cyfarfod blynyddol, y busnes cyntaf fydd:**
 - (i) **Ethol Maer y Dref.**
 - (ii) Derbyn datganiad Maer y Dref ei fod yn derbyn y swydd.
 - (iii) Ethol Dirprwy Faer y Dref a derbyn ei ddatganiad ef/hi.

- (c) **Mewn unrhyw gyfarfod heblaw'r cyfarfod blynyddol, y busnes cyntaf fydd ethol Cadeirydd os yw'r Maer a'r Dirprwy Faer yn absennol.**
- (d) Ar ôl cwblhau'r busnes cyntaf, dyma fydd trefn y busnes, oni fydd y Cyngor yn penderfynu'n wahanol:
 - (i) Ystyried cofnodion y cyfarfod blaenorol ac unrhyw adroddiadau a chofnodion pwyllgorau;
 - (ii) Derbyn unrhyw ohebiaethau y bydd y Cadeirydd sy'n llywyddu'n dymuno'u cyflwyno gerbron y Cyngor;
 - (iii) Ystyried cynigion neu benderfyniadau yn y drefn y byddant wedi eu derbyn;
 - (iv) Ateb cwestiynau;
 - (v) Delio â busnes arall sydd wedi ei bennu yn y wŷs;
 - (vi) Awdurdodi talu cyfrifon;
 - (vii) Unrhyw fusnes brys arall (yn ôl ewylllys y Cadeirydd).

8—CYFLWYNO CYNIGION DRWY RYBUDD

- (a) Heblaw fel y darperir gan y Rheolau Sefydlog hyn, ni chaiff unrhyw gynnig ei gyflwyno oni fydd y busnes y mae'n ymwneud ag ef wedi ei roi ar yr Agenda gan y Clerc neu oni fydd y cynigydd wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig am ei delerau ac wedi rhoi i'r Clerc rybudd o **saith** diwrnod clir o leiaf cyn cyfarfod nesaf y Cyngor.
- (b) Bydd y Clerc yn rhoi dyddiad ar bob rhybudd cynnig neu argymhelliad wrth eu derbyn, bydd yn rhifo pob rhybudd yn nhrefn eu derbyn, a bydd yn eu cofnodi mewn llyfr a fydd yn agored i'w archwilio gan bob aelod o'r Cyngor.
- (c) Bydd y Clerc yn rhoi yn y wŷs ar gyfer pob cyfarfod bob rhybudd cyflwyno neu argymhelliad sydd wedi ei roi'n briodol yn nhrefn eu derbyn, oni fydd yr aelod sydd wedi rhoi rhybudd cyflwyno wedi dweud yn ysgrifenedig ei fod ef/hi yn bwriadu gwneud cynnig mewn cyfarfod diweddarach neu ei fod ef/hi yn ei dynnu'n ôl.
- (d) Os na fydd cynnig neu argymhelliad a bennir yn y wŷs yn cael ei gyflwyno naill ai gan yr aelod sydd wedi rhoi rhybudd amdano neu gan unrhyw aelod arall, oni chaiff ei ohirio gan y Cyngor caiff ei drin fel pe bai wedi ei dynnu'n ôl ac ni chaiff ei gyflwyno heb rybudd o'r newydd.
- (e) Os daw testun cynnig o fewn cylch gwaith un o bwyllgorau'r Cyngor, os caiff ei gynnig a'i eilio bydd yn sefyll i gael ei gyfeirio heb drafodaeth i'r pwyllgor hwnnw, neu i unrhyw bwylgor arall

a benderfynir gan y Cyngor ar gyfer gwneud adroddiad; cyn belled â bod y Cadeirydd, os bydd ef/hi yn ystyried ei fod yn fater o frys, yn gallu caniatáu delio ag ef yn y cyfarfod lle cafodd ei gyflwyno.

- (f) Bydd pob cynnig neu argymhelliad yn berthnasol i ryw bwnc y mae gan y Cyngor bŵer drosto neu sy'n effeithio ar ei faes.

9—CYNIGION A GYFLWYNIR HEB RYBUDD

Gall cynigion sy'n delio â'r materion canlynol gael eu cyflwyno heb rybudd:

- (a) I benodi Cadeirydd cyfarfod
- (b) I gywiro'r cofnodion
- (c) I gymeradwyo'r cofnodion
- (d) I newid trefn y busnes
- (e) I symud ymlaen i'r busnes nesaf
- (f) I gloi neu ohirio dadl
- (g) I gyfeirio mater at bwyllgor
- (h) I benodi pwyllgor neu unrhyw aelodau ohono
- (i) I fabwysiadu adroddiad
- (j) I awdurdodi selio dogfennau
- (k) I ddiwygio cyflwyniad
- (l) I ganiatáu tynnu cynnig neu ddiwygiad yn ôl
- (m) I estyn y terfyn amser ar gyfer areithiau
- (n) I wahardd y cyhoedd (*Gweler Rheol 31 isod*)
- (o) I dawelu aelod sydd wedi ei enwi am gamymddwyn neu i'w yrru allan o'r cyfarfod (*Gweler Rheol 12 isod*)
- (p) I wahodd aelod sydd â diddordeb yn y pwnc sy'n cael ei drafod i aros (*Gweler Rheol 22(a) isod*)
- (q) I roi caniatâd y Cyngor lle bydd caniatâd yn angenrheidiol o dan y Rheolau Sefydlog hyn
- (r) I ohirio unrhyw Reol Sefydlog (*Gweler Rheol 33 isod*)
- (s) I ohirio cyfarfod

10—CWESTIYNAU

- (a) Gall unrhyw aelod ofyn i'r Cadeirydd neu'r Clerc unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â busnes y Cyngor, cyn belled â bod rhybudd rhesymol wedi ei roi i'r sawl y cyfeirir y cwestiwn ato cyn dechrau'r cyfarfod.

- (b) Ni ellir gofyn unrhyw gwestiwn onid yw'n gysylltiedig â'r busnes sy'n cael ei drafod, ac eithrio yn ystod y rhan o'r cyfarfod sydd wedi ei neilltuo ar gyfer cwestiynau.
- (c) Caiff pob cwestiwn ei ofyn a'i ateb heb drafodaeth.
- (d) Gall person y cyfeirir cwestiwn ato wrthod ateb.

11—RHEOLAU DADLAU

- (a) Ni fydd unrhyw drafodaeth am y Cofnodion ac eithrio am eu cywirdeb. Caiff Cofnodion eu cywiro drwy benderfyniad a rhaid i'r Cadeirydd roi ei lofnod wrthynt.
- (b) (i) Ni chaiff penderfyniad neu welliant ei drafod oni fydd hynny wedi ei gynnig a'i eilio. Ac oni fydd rhybudd priodol eisoes wedi ei roi, caiff ei gwtogi i ffurf ysgrifenedig, os bydd y Cadeirydd yn mynnu hynny, a'i gyflwyno iddo ef/hi cyn ei drafod ymhellach neu ei roi gerbron y cyfarfod.
- (ii) Gall aelod wrth eilio penderfyniad neu welliant, os bydd wedyn yn datgan ei fwriad i wneud hynny, atal ei araith tan yn ddiweddarach yn y ddadl.
- (iii) Bydd aelod yn cyfeirio'i araith ef/hi at y cwestiwn dan sylw neu at eglurhad personol neu at gwestiwn o drefn.
- (iv) Ni fydd araith gan rywun sy'n cyflwyno penderfyniad yn para mwy na **phum** munud, ac ni fydd unrhyw araith arall yn para mwy na **phum** munud ac eithrio gyda chaniatâd y Cyngor.
- (v) Bydd gwelliant naill ai yn cynnig:
 - [A] Gadael geiriau allan.
 - [B] Gadael geiriau allan a rhoi rhai eraill yn eu lle neu ychwanegu rhai eraill.
 - [C] Rhoi geiriau i mewn neu ychwanegu rhai eraill.
- (vi) Ni fydd gwelliant yn gallu negyddu'r penderfyniad sydd gerbron y Cyngor.
- (vii) Os caiff gwelliant ei dderbyn, bydd y penderfyniad fel y cafodd ei ddiwygio yn disodli'r penderfyniad gwreiddiol, a hwnnw fydd y penderfyniad y gellir cyflwyno unrhyw welliant pellach iddo.
- (viii) Ni chaiff gwelliant pellach ei gyflwyno nes i'r Cyngor benderfynu pob gwelliant sydd wedi ei gyflwyno'n flaenorol.
- (ix) Bydd gan y sawl sy'n cyflwyno'r penderfyniad neu'r gwelliant hawl i ateb, a hwnnw i bara dim mwy na **phum** munud.
- (x) Ni fydd aelod, ac eithrio'r sawl sy'n cyflwyno'r penderfyniad, yn cael siarad fwy nag unwaith, heb ganiatâd y Cyngor, am

unrhyw benderfyniad ac eithrio i gyflwyno gwelliant neu welliant pellach, neu am welliant, am bwynt trefn, i wneud esboniad personol, neu i gynnig cau dadl.

- (xi) Gall aelod godi i wneud pwynt trefn neu i roi esboniad personol. Bydd aelod sy'n codi at un o'r dibenion hyn yn cael gwrandawriad ar unwaith. Bydd esboniad personol yn gyfyngedig i ryw ran berthnasol mewn araith flaenorol ganddo ef/hi a all fod wedi ei chamddeall.
- (xii) Gall cynnig neu welliant gael ei dynnu'n ôl gan y cynigiwr gyda chaniatâd y Cyngor, ac arwyddir hynny heb drafodaeth. Ni chaiff unrhyw aelod siarad am y mater ar ôl gofyn caniatâd i'w dynnu'n ôl oni fydd y caniatâd hwnnw wedi ei wrthod.
- (xiii) Pan fydd dadl yn mynd ymlaen am benderfyniad, ni chaiff unrhyw benderfyniad arall ei gyflwyno ac eithrio'r canlynol:
 - [A] I gynnig gwelliant yn y penderfyniad.
 - [B] I fynd ymlaen at y busnes nesaf.
 - [C] I ohirio'r ddadl.
 - [D] Bod y cwestiwn nawr yn cael ei gyflwyno.
 - [E] Na chaiff aelod sydd wedi ei enwi wrandawriad pellach.
 - [F] Bod yr aelod sydd wedi ei enwi yn gadael y cyfarfod.
 - [G] Bod y penderfyniad yn cael ei gyfeirio at bwyllgor.
 - [H] I wahardd y cyhoedd a'r wasg.
 - [I] I ohirio'r cyfarfod.
- (c) Caiff aelod godi wrth siarad.
- (d) (i) Ni chaiff penderfyniad y Cadeirydd am bwynt trefn neu am dderbynioldeb esboniad personol ei drafod.
 - (ii) Bydd aelodau'n cyfarch y Cadeirydd.
 - (iii) Os bydd dau aelod neu ragor yn codi, bydd y Cadeirydd yn galw ar un ohonynt i siarad a bydd y lleill yn eistedd.
 - (iv) Pryd bynnag y bydd y Cadeirydd yn codi yn ystod dadl, bydd yr holl aelodau eraill yn eistedd ac yn bod yn dawel.

12—YMDDWYN YN ANHREFNUS

- (a) Ni chaiff unrhyw aelod mewn cyfarfod yn gyson anwybyddu rheoliad y Cadeirydd, rhwystro'r busnes yn fwriadus, nac ymddwyn yn afreolaidd, yn dramgwyddus, yn amhriodol nac mewn ffordd sy'n dwyn anfri ar y Cyngor na thynnu dirmyg na gwawd arno.
- (b) Os bydd aelod, ym marn y Cadeirydd, wedi torri darpariaethau paragraff (a) yn y Gorchymyn hwn, bydd y Cadeirydd yn mynegi'r farn wrth y Cyngor ac wedyn gall unrhyw aelod gynnig

na chaiff yr aelod a enwyd wrandawriad pellach neu bod yr aelod a enwyd yn gadael y cyfarfod, ac os caiff y cynnig ei eilio, caiff ei gyflwyno'n ddi-oed a heb drafodaeth.

- (c) Os nad ufuddheir i'r naill neu'r llall o'r cynigion a nodwyd ym mharagraff (b), gall y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod neu gymryd unrhyw gamau pellach a all fod yn ofynnol yn rhesymol i'w orfodi.

13—HAWL I ATEB

Bydd gan y sawl sy'n cynnig penderfyniad hawl i ateb yn union cyn gwahodd pleidlais ar y penderfyniad. Os caiff gwelliant ei gynnig, bydd gan gynigiwr penderfyniad hawl i ateb yn union cyn gwahodd pleidlais ar y gwelliant. Ni fydd aelod sy'n ymarfer hawl i ateb yn gallu cyflwyno mater newydd. Ar ôl ymarfer neu ildio'r hawl i ateb, bydd pleidlais heb drafodaeth bellach.

14—NEWID PENDERFYNIAD

Gyda chaniatâd ei eilydd, gall aelod gynnig gwelliannau i'w benderfyniad ei hun.

15—DIDDYMU PENDERFYNIAD BLAENOROL

- (a) Ni chaiff penderfyniad gan y Cyngor (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) ei wrth-droi cyn pen chwe mis ac eithrio drwy benderfyniad arbennig, a'r rhybudd ysgrifenedig am hwnnw'n cynnwys enwau o leiaf **saith** aelod o'r Cyngor, neu drwy benderfyniad wedi ei gyflwyno'n unol ag adroddiad neu argymhelliad gan bwyllgor.
- (b) Pan fydd penderfyniad arbennig neu unrhyw benderfyniad arall a gyflwynir o dan ddarpariaethau paragraff (a) yn y Gorchymyn hwn wedi ei benderfynu, ni ellir cyflwyno penderfyniad tebyg am chwe mis arall.

16—PLEIDLEISIO AR BENODIADAU

Lle bydd mwy na dau berson wedi eu henwebu ar gyfer unrhyw swydd sydd i'w llenwi gan y Cyngor heb fod mwyafrif absoliwt o blaid un person, caiff enw'r sawl sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau ei dynnu oddi ar y rhestr a bydd pleidleisio o'r newydd, ac felly yn y blaen nes bydd mwyafrif o bleidleisiau o blaid un person.

17—TRAFODAETHAU A PHENDERFYNIADAU SY’N EFFEITHIO AR WEITHWYR Y CYNGOR

Os cwyd unrhyw gwestiwn mewn cyfarfod yn ymwneud â phenodiad, ymddygiad, diswyddiad, cyflog neu amodau gwasanaeth unrhyw un a gyflogir gan y Cyngor, ni chaiff ei ystyried nes bydd y Cyngor neu’r pwyllgor (fel y bo’r achos) wedi penderfynu a gaiff y cyhoedd eu gwahardd, h.y. mewn pwyllgor. (*Gweler Rheol Sefydlog Rhif 31*).

18—PENDERFYNIADAU AM WARIANT

Pan fydd unrhyw benderfyniad a fyddai, ym marn y Cadeirydd, yn cynyddu’n sylweddol y gwariant ar unrhyw wasanaeth sydd o dan reolaeth unrhyw bwyllgor, neu a fyddai’n lleihau’r refeniw sydd ar gael i unrhyw bwyllgor, neu a fyddai’n golygu gwariant cyfalaf, yn cael ei gynnig a’i eilio, bydd yn sefyll wedi ei ohirio heb drafodaeth tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor, a bydd unrhyw bwyllgor y mae’n effeithio arno yn ystyried a yw’n dymuno rhoi adroddiad amdano.

19—SELIO DOGFENNAU

Ni chaiff dogfen ei selio oni fydd ei selio wedi ei awdurdodi, a rhaid llofnodi hynny gan ddau aelod o’r Cyngor a Chlerc y Cyngor.

20—PWYLLGORAU YN CYNNWYS MATERION CYNLLUNIO

Gall y Cyngor o bryd i’w gilydd benodi unrhyw bwyllgor sefydlog ac is-bwyllgor fel y credir bod angen, a bydd y Maer a’r Dirprwy Faer yn aelodau o unrhyw is-bwyllgor felly. Mae gan bwyllgorau felly hawl i gyfethol aelodau ar wahân i aelodau’r Cyngor.

Mae gan yr is-bwyllgor cynllunio bwerau dirprwyol i ddanfon sylwadau cynllunio ar ran y Cyngor at awdurdodau uwch.

21—CYFRIFON A DATGANIAD ARIANNOL

- (a) Bydd yr holl gyfrifon sydd i’w talu a hawliadau i’r Cyngor yn cael eu gosod gerbron y Cyngor, a chânt eu talu dim ond ar ôl eu cymeradwyo gan y Cyngor.
- (b) Bydd y Clerc yn rhoi i’r Cyngor cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y Flwyddyn Ariannol ddatganiad am dderbyniadau a thaliadau.
- (c) Bydd cyfrifon ar ffurf mantolen yn cael eu cyflwyno i’r Cyngor bob chwarter.
- (d) Bydd gwariant sydd i gael ei dynnu a’i dalu allan o’r trethi yn cael ei ystyried gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Ionawr bob blwyddyn neu mewn cyfarfod arbennig a elwir i’r diben hwnnw.

22—DIDDORDEBAU

- (a) Os bydd gan unrhyw aelod unrhyw ddiddordeb ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol o fewn ystyr Adrannau 94/95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewn unrhyw fater sy'n cael ei drafod gan y Cyngor, bydd ef/hi yn datgan ei ddiddordeb ac yn gadael y cyfarfod, oni chaiff ei wahodd gan y Cyngor i aros.
- (b) **Bydd y Clerc yn cofnodi yn y cofnodion fanylion am unrhyw rybudd a roir gan aelod neu gan unrhyw un o swyddogion y Cyngor am ddiddordeb ariannol mewn contract neu dender.**
- (c) Os bydd gan unrhyw aelod ddiddordeb ariannol o fewn cwmplas y Côd Cenedlaethol Ymddygiad Llywodraeth Leol, bydd ef/hi yn datgan hynny ac wedyn gellir ei wahodd ef/hi i adael y cyfarfod.
- (d) Os bydd ymgeisydd am unrhyw benodiad o dan reolaeth y Cyngor yn gwybod ei fod ef neu hi'n perthyn i unrhyw aelod neu i unrhyw un sy'n dal swydd o dan y Cyngor, bydd yr ymgeisydd a'r sawl y mae'n perthyn iddo/iddi yn datgelu'r berthynas yn ysgrifenedig i'r Clerc. Bydd ymgeisydd sy'n methu gwneud hynny'n cael ei anghymwyso ar gyfer y penodiad hwnnw, ac os caiff ei benodi, gellir ei ddiswyddo heb rybudd. Bydd y Clerc yn dweud wrth y Cyngor neu'r is-bwyllgor priodol am unrhyw ddatgelu felly. Pan gaiff perthynas ag aelod ei datgelu, bydd Rheol Sefydlog 3 (Diddordebau) yn gymwys.

Bydd y Clerc yn cyfleu cynnwys y Rheol Sefydlog hon i bob ymgeisydd.

23—CANFASIO AC ARGYMHELLION GAN AELODAU

- (a) (i) Bydd canfasio aelodau o'r Cyngor neu o unrhyw bwyllgor, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, am unrhyw benodiad o dan y Cyngor yn anghymwyso'r ymgeisydd am y penodiad hwnnw. Bydd y Clerc yn cyfleu wrth bob ymgeisydd gynnwys yr is-baragraff hwn yn y Rheol Sefydlog hon.
- (ii) Ni fydd aelod o'r Cyngor nac o unrhyw bwyllgor yn deisyf dros unrhyw un am unrhyw benodiad o dan y Cyngor nac yn argymhell unrhyw un ar gyfer penodiad felly neu am ddyrchafiad; ond gall unrhyw aelod felly roi tysteb ysgrifenedig am allu, profiad neu gymeriad ymgeisydd i'w chyflwyno i'r Cyngor gyda chais am benodiad.
- (b) Bydd Rheolau Sefydlog 22(d) a 23(a) yn gymwys i dendrau fel pe bai'r sawl sy'n cynnig am dender yn ymgeisydd am benodiad.

24—ARCHWILIO DOGFENNAU

- (a) Gall aelod, at ddibenion ei ddyletswyddau fel y cyfryw (ond nid fel arall), archwilio unrhyw ddogfen sydd ym meddiant y Cyngor neu bwyllgor, ac os oes copïau ar gael, drwy wneud cais gellir darparu copi i'r diben.
- (b) **Bydd cofnodion a gedwir gan y Cyngor a chan unrhyw bwyllgor yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw aelod o'r Cyngor.**

25—GWEITHGAREDDAU HEB EU HAWDURDODI

Ni chaiff unrhyw aelod o'r Cyngor nac o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor yn enw'r Cyngor nac ar ei ran

- (a) archwilio unrhyw diroedd nac adeiladau sydd gan y Cyngor hawl neu ddyletswydd i'w harchwilio; neu
- (b) roi gorchmynion na chyfarwyddiadau oni chaiff ei awdurdodi i wneud hynny gan y Cyngor neu'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor perthnasol.

26—CYSWLLT Â CHYNGHORWYR SIR

- (a) Anfonir hysbysiad am gyfarfodydd ynghyd â gwahoddiad i fynychu at Gyngorwyr Sir yr Ardal Sirol.
- (b) Oni fydd y Cyngor yn gorchymyn yn wahanol, bydd copi o bob llythyr y gorchmynnir ei anfon at y Cyngor Sir yn cael ei anfon at Gyngorwyr Sir yr ardal.

27—RHEOLAU SEFYDLOG AR GONTRACTAU

- (a) Gall contractau brys hyd at derfyn o £300 gael eu hawdurdodi gan y Clerc (neu gan is-bwyllgor wedi ei awdurdodi), a byddai fel rheol yn ymgynghori â'r Maer (neu ei ddirprwy os yw'r Maer yn absennol). Ar gyfer contractau rhwng £301 a £1,000 gall contractau gael eu hawdurdodi gan y Cyngor llawn heb dendro.
- (b) Lle bwriedir rhoi contract gwerth dros £1,000 ond heb fod dros £10,000 am gyflenwi nwyddau neu ddefnyddiau neu am wneud gwaith, bydd y Clerc yn rhoi o leiaf dair wythnos o rybudd cyhoeddus am fwriad felly yn yr un modd ag y rhoir rhybudd cyhoeddus am gyfarfodydd y Cyngor. Lle bydd gwerth y contract a fwriedir yn fwy na £10,000, rhoir rhybudd tebyg mewn papurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal yn ôl cyfarwyddyd y Cyngor.
- (c) Bydd rhybudd am gontract gwerth dros £10,000 yn nodi natur gyffredinol y contract a fwriedir ac yn rhoi enw a chyfeiriad y sawl y dylid cyfeirio tender ato, a'r dyddiad olaf pan ddylai'r contractau hynny gyrraedd y person hwnnw drwy'r post cyffredin.

- (d) Drwy gytundeb y Cyngor ymlaen llaw, gall tendrau gael eu hagog gan **dri** aelod o'r Cyngor sydd wedi eu hawdurdodi a chan y Clerc mewn pwyllgor.
- (e) Caiff tendrau eu rhestru gan ddilyn Canllawiau Cenedlaethol ac arfer da.
- (f) Nid yw'r Cyngor wedi ei rwymo i dderbyn y tender isaf.
- (g) Os na cheir tendrau neu os yw'r tendrau i gyd yr un fath, gall y Cyngor wneud unrhyw drefniadau y cred eu bod yn addas i brynu'r nwyddau neu'r defnyddiau neu i wneud y gwaith.
- (h) Dylid cyhoeddi tendrau hefyd gan ddilyn Canllawiau Cenedlaethol.
- (i) Bydd rhybudd gyhoeddir o dan y Rheol Sefydlog hon yn cynnwys datganiad am effaith Rheolau Sefydlog Rhifau 22(d) a 23.

28—CÔD YMDDYGIAD AM GWYNION

Bydd y Cyngor yn delio â chwynion am gamweinyddu yr honnir i'r Cyngor neu unrhyw swyddog neu aelod ei gyflawni, fel yr argymhellir yng Nghylchlythyr 2/86 a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol Cyngorau Lleol neu mewn cyhoeddiadau diweddarach. Yn yr un modd mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dogfen Polisi Cyfryngau Cymdeithasol (6 Mehefin 2017). Disgwylir i'r Maer a'r Cydwedd fod yn gyfrifol drwy ofalu a pharchu cadwyni'r swydd fydd tan eu gofal yn ôl y canllawiau a fynegir gan y cwmni yswiriant a hefyd clogwyni'r cyngor sydd i'w gwisgo ar ddigwyddiadau dinesig yn unig.

29—CYFRIFOLDEBAU FEL YMDDIRIEDOLWR

Lle bydd y Cyngor yn gweithredu fel Ymddiriedolwr, bydd yr arweiniad a roir yn 'Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr Elusennol' (Mawrth 1996) neu gyhoeddiad diweddarach yn gymwys.

30—IECHYD A DIOGELWCH A DOGFEN ASESIAID RISG

Mae gan y Cyngor Bolisi Iechyd a Diogelwch a dogfen Asesiad Risg a gaiff eu harolygu'n flynyddol.

31—CANIATÁU'R CYHOEDD A'R WASG MEWN CYFARFODYDD

Caiff y cyhoedd a'r wasg eu caniatáu yng nghyfarfodydd y Cyngor, ond gall wahardd y cyhoedd neu'r wasg neu'r naill a'r llall dros dro drwy wneud y penderfyniad canlynol:

"Oherwydd natur gyfrinachol y busnes sydd i'w gynnal, fod y wasg etc i gael eu gwahardd dros dro."

32—BUSNES CYFRINACHOL

Ni fydd unrhyw aelod o'r Cyngor yn datgelu i unrhyw un nad yw'n aelod o'r Cyngor unrhyw fusnes y mae'r Cyngor yn datgan ei fod yn gyfrinachol.

33—GWAHODDIADAU SWYDDOGOL

Cytunwyd ar y gwplled ganlynol ar 5 Gorffennaf 2016, tud. 1137, eitem 11: Pe bai'r Maer yn methu mynychu unrhyw ddigwyddiad swyddogol, bod y Dirprwy Faer yn derbyn y gwahoddiad; pe bai ef/hi yn methu, bod y gwahoddiad yn cael ei drosglwyddo i'r cyn-Faer – gyda'r gwahoddiad yn ymestyn wedyn i'r cyn-Feiri yn eu tro. Bydd y cyfrifoldeb ar benderfyniad, felly, ar ysgwyddau'r un sydd yn methu derbyn y gwahoddiad.

34—RHODDION / GRANTIAU

Cais am grant i fudiad elusennol/gwirfoddol. Tan Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cyn ystyried y cais, rhaid derbyn naill ai cais ar ffurflen gais swyddogol y cyngor neu lythyr apêl ynghyd â'r fantolen ddiweddaraf yn dangos incwm y sefydliad, gwariant a'r arian wrth law. Os nad oes mantolen flynyddol ar gael, rhaid amgau datganiad cyfrif banc dros y chwe mis olaf (cofnod 7 Ebrill 2016, tud. 986).

35—POLISI DWYIEITHOG CYNGOR TREF ABERTEIFI

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 o dan adran 14(1) o'r Ddeddf. Derbyniodd y Cynllun gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14(1) y Ddeddf. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Cynllun hwn ac i weithredu yn unol â'r holl gymalau a amlinellir yng nghorff y Cynllun.

36—GOHIRIO RHEOLAU SEFYDLOG

Gall unrhyw ran o'r Rheolau Sefydlog, ac eithrio'r eitemau mewn **llythrennau bras**, gael ei gohirio drwy benderfyniad mewn cysylltiad ag unrhyw eitem benodol o fusnes.

Rheolau Sefydlog i'w rhoi i aelodau

Caiff copi wedi ei argraffu o'r Rheolau Sefydlog hyn ei roi i bob aelod o'r Cyngor. Diwygiwyd a chymeradwywyd mewn cyfarfod o Gyngor Tref Aberteifi 5ed Mawrth 2019, tudalen 1468, eitem 6.

John Adams-Lewis

John Adams-Lewis, Maer y Dref

L. Wynford Jones

L. Wynford Jones, Clerc y Cyngor